



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Mae Brechu yn achub bywydau
Vaccination saves lives

Fframwaith Imiwneiddio Cenedlaethol Cymru

llyw.cymru

Cynnwys

1	Rhagair y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
2	Neges gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol
3	Trosolwg
7	Cynnydd
8	Blaenoriaethau'r Fframwaith Imiwneiddio Cenedlaethol
8	1. Brechu Teg
10	2. Brechu Wedi'i Hwyluso drwy Dechnolegau Digidol
11	3. Cymhwysedd
11	4. Llythrennedd Brechu Ymysg y Cyhoedd
12	5. Rhoi ar Waith
15	6. Llywodraethiant
17	Edrych ymlaen



Rhagair

Mae brechu yn rhan hanfodol o ddarpariaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Cymru i ddiogelu dinasyddion a chymunedau, a hynny ers peth amser. Taflodd y pandemig oleuni ar bwysigrwydd imiwneiddio, o safbwynt atal ac mewn ymateb i glefyd difrifol. Yng ngwanwyn 2020, roeddem ni i gyd yn gobeithio ac yn aros am frechlyn COVID-19 i achub bywydau, diogelu'r GIG a'n galluogi i lacio cyfyngiadau. Gorfododd y pandemig inni feddwl mewn ffordd wahanol am sut i frechu pobl, gan gynnwys sut i hybu'r niferoedd sy'n cael eu brechu a sut i sicrhau tegwch. Cynhaliodd Cymru un o'r rhaglenni brechu mwyaf llwyddiannus yn y byd yn ystod pandemig y coronafeirws ac mae arnom ni i gyd ddyled enfawr i bawb a oedd yn rhan o'r prosiect aruthrol hwnnw, prosiect sy'n parhau y gaeaf hwn. Rhaid inni ddysgu'r gwersi hyn a'u rhoi ar waith yn ein trefniadau yn y dyfodol. Bwriadwn wneud hynny drwy'r Fframwaith Imiwneiddio Cenedlaethol hwn.

Sefydlwyd y rhaglen trawsnewid brechu i edrych ar ddarpariaeth gwasanaethau brechu i sicrhau bod trefniadau'n addas at y dyfodol. Mae llwyddiant ac arferion da ein rhaglenni presennol wedi ffurfio'r sail ar gyfer y broses drawsnewid. Yn wir, gwnaethant ddarparu'r sylfaen ar gyfer ein rhaglen frechu COVID-19 a oedd ymysg yr orau yn y byd. Rydym wedi asesu ein blaenoriaethau a'n disgwyliadau ar gyfer y dyfodol gan gadw'r pandemig ar flaenau ein meddyliau.

Mae sicrhau ein bod ni i gyd wedi ein himiwneiddio rhag clefydau yn bwysig i reoli ein hiechyd personol ac i atal epidemigau a lefelau difrifol o salwch a allai lethu'r GIG. Mae brechu yn hanfodol ar gyfer iechyd cyhoeddus, ac mae angen inni sicrhau bod gan unigolion ymddiriedaeth a hyder i ddod ymlaen i gael eu brechu.

Bydd y Fframwaith Imiwneiddio Cenedlaethol uchelgeisiol hwn yn paratoui'r ffordd ar gyfer trawsnewid brechu yng Nghymru, gan ein galluogi i gynnal rhaglenni brechu ac imiwneiddio o'r radd flaenaf, gyda phwyslais ar y niferoedd sy'n cael eu brechu a thegwch. Bydd yn diogelu Cymru a'n Gwasanaeth Iechyd Gwladol.

Eluned Morgan AS

Y GWEINIDOG IECHYD A
GWASANAETHAU CYMDEITHASOL



Neges gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol

Mae'n bleser gennyf rannu Fframwaith Imiwneiddio Cenedlaethol Cymru â chi. Hoffwn ddechrau drwy ddiolch ichi i gyd am eich holl waith caled a chefnogaeth gyson. Rydym ni i gyd yn deall pwysigrwydd brechu o safbwynt atal ac o ran diogelu iechyd, gan gadw pobl Cymru yn ddiogel a gwarchod y GIG.

Datblygwyd y Fframwaith drwy nodi a defnyddio'r gwersi o'r pandemig gan anelu at drawsnewid a gwella ein trefniadau presennol drwy integreiddio ein holl raglenni brechu. Rwyf am i'r Fframwaith hwn alluogi newidiadau cadarnhaol i'n dulliau darparu i wella trefniadau brechu a chynyddu'r niferoedd sy'n cael eu brechu.

Drwy ein Strategaeth Frechu'r Gaeaf yn erbyn Feirysau Anadlol, cyfunwyd y rhaglenni brechu rhag COVID-19 a'r fflw, gan gynnwys y strategaethau a'r gwaith cynllunio a rheoli ar eu cyfer. Dyma'r cam cyntaf yn ein taith tuag at drawsnewid brechu ac mae'r arwyddion cynnar yn awgrymu ei fod yn newid cadarnhaol. Mae wedi golygu dull gweithredu gwahanol a ffyrdd newydd o weithio ac rwyf wedi fy nharo gan ymrwymiad a gwaith caled pawb sy'n helpu i'w roi ar waith.

Serch hynny, mae rhagor i'w wneud, ac mae'r Fframwaith hwn yn amlinellu ein uchelgeisiau i barhau i drawsnewid brechu, gan integreiddio ymhellach, er mwyn gwella gwasanaethau i bawb yng Nghymru.

Mae llawer ohonoch wedi bod yn rhan o waith i lunio a datblygu'r uchelgeisiau hyn drwy'r dull cydgyhyrchu yr ydym wedi'i ddilyn. Rwy'n ddiolchgar ichi am eich cyfraniadau hollbwysig. Gwn y byddwch yn parhau i gyfrannu a chydweithio wrth inni fynd ati i roi'r Fframwaith Imiwneiddio Cenedlaethol uchelgeisiol hwn ar waith.

Judith Paget

Judith Paget

CYFARWYDDWR CYFFREDINOL IECHYD /
PRIF WEITHREDWR GIG CYMRU

Trosolwg

Mae brechu yn offeryn iechyd cyhoeddus sy'n atal salwch difrifol, gan ddiogelu pobl, cymunedau a'r GIG yng Nghymru. Mae Sefydliad Iechyd y Byd yn amcangyfrif bod brechu yn atal hyd at 3 miliwn o farwolaethau o amgylch y byd bob blwyddyn. Parhawyd i gynnal rhaglenni imiwneiddio hanfodol drwy gydol y pandemig, sy'n dangos eu gwerth diamheuol o safbwynt atal ac mewn ymateb i achosion o glefydau. Brechu yw un o'r camau pwysicaf y gallwn ni ei gymryd ar gyfer ein hiechyd ein hunain ac iechyd ein plant, ac mae'n un o'r camau ataliol pwysicaf y gall GIG Cymru ei gynnig i bobl yng Nghymru. Mae brechu hefyd yn cynnig gwerth da am arian fel mesur iechyd ataliol. Er enghraifft, yn ôl tystiolaeth, tua 14:1 oedd gwerth yr adenillion ariannol o fuddsoddi yn rhaglen MMR y Deyrnas Unedig.

Ers i frechlynnau gael eu cyflwyno yn y DU, mae clefydau fel y frech wen a rwbela – a oedd yn arfer achosi marwolaethau neu anableddau mewn miliynau o bobl – naill ai wedi'u dileu neu'n cael eu gweld yn anaml iawn. O ran y coronafeirws, brechu yw rheng flaen ein hamddiffyniad yn y pandemig parhaus; gan ei fod yn lleihau clefyd difrifol – sy'n gostwng nifer y bobl sydd angen gofal iechyd ac yn achub pobl rhag niwed a all gael effaith arnynt am oes – a marwolaethau ymysg ein poblogaeth.

Ein nod ar gyfer trawsnewid brechu yw **cyflawni canlyniadau o'r radd flaenaf o ran clefydau y gellir eu hatal drwy frechu**.

Byddwn yn gwneud hyn drwy sefydlu'r Fframwaith Imiwneiddio Cenedlaethol hwn a'i weithredu yn ystod 2023. Drwy gydol y cyfnod gweithredu, wrth barhau i integreiddio rhaglenni ymhellach, bydd rhaglenni sydd eisoes ar waith yn parhau i gael eu darparu yn effeithiol.

Ein gweledigaeth ar gyfer dyfodol imiwneiddio yng Nghymru yw bod niferoedd mawr o bobl yn manteisio ar frechlyn effeithiol, a ddarperir yn gynaliadwy, ar yr adeg iawn, i leihau marwolaethau ac afiechyd.

Rydym am weld gwasanaethau brechu sy'n glir, fel y bydd dinasyddion yn gwybod pa frechiadau mae ganddynt hawl iddynt a sut i'w cael. Bydd y niferoedd sy'n cael eu brechu a mynediad a chyfle teg wrth wraidd y ffordd y bydd gwasanaethau yn cael eu cynllunio a'u darparu.

Dylai'r trefniadau brechu:

- Fod yn addas ar gyfer y dyfodol gan ddarparu profiad gwell i gleifion.
- Canolbwyntio ar yr unigolyn a'i deulu.
- Elwa ar seilwaith cenedlaethol.
- Cefnogi dull unwaith i Gymru sydd wedi'i gynllunio ac yn cael ei roi ar waith yn lleol.
- Cyflawni canlyniadau seiliedig ar werth.
- Cynnwys prosesau llywodraethiant priodol a chadarn.

Bydd angen sicrhau ein bod yn barod ar gyfer pandemig arall fel y gallwn ymateb yn effeithiol i fygythiadau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol yn y dyfodol. Rydym wedi gweld sut y gall defnyddio'r gwersi o bandemig y coronafeirws helpu i frechu'n gyflym ac yn effeithiol mewn ymateb i'r achosion o frech y mwncïod. Byddwn yn adeiladu ar hyn drwy weithredu'r Fframwaith hwn.

Yn ystod y camau cwmpasu, dylunio a datblygu, rydym wedi gweithio ar sail cydgynhyrchu ac wedi defnyddio'r egwyddorion dylunio canlynol, a fydd yn parhau i fod yn berthnasol a chael eu defnyddio yn ystod y cam gweithredu:



Egwyddorion dylunio	Canlyniad
Gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn	lle mae pobl yn cydnabod pwysigrwydd brechu, yn gallu cael at eu cofnod, yn gwybod pa frechiadau mae ganddynt hawl iddynt ac yn gallu dod o hyd i ffyrdd o gael eu brechu mor agos at eu cartref â phosibl
Cynnwys ac ymgysylltu wrth wraidd y ffordd y mae gwasanaethau yn cael eu cynllunio a'u darparu	rhoi seilwaith a systemau lleol a chenedlaethol ar waith fel y bydd cynnwys ac ymgysylltu wrth wraidd ein gwasanaethau brechu yng Nghymru
Fframwaith wedi'i ddatblygu'n ganolog a'i roi ar waith yn lleol	fframwaith cenedlaethol cyffredinol gyda hyblygrwydd ar gyfer ymyriadau pwrpasol yn lleol i ateb anghenion y boblogaeth leol
Dulliau seiliedig ar werth sy'n darparu adenillion o fuddsoddi	cydnabod y gwerth cynhenid sydd i frechu o ran atal clefyd a sicrhau gwerth am arian yn y dulliau a ddefnyddir
Dull seiliedig ar ddata a thystiolaeth	darparu data amserol a manwl gywir a mewnwelediadau ymddygiadol i sicrhau bod y gwasanaethau'n arloesol, yn effeithiol ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn
Gweithio mewn partneriaeth	ymgysylltu'n barhaus ac yn ystyrlon â phartneriaid i sicrhau gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn cyflawni canlyniadau a gwerth am arian
Gwelliant parhaus	gwerthuso dulliau yn rheolaidd i ddeall effaith ar ymddygiadau, gan rannu arferion gorau ac addasu modelau gweithredu pan fo angen
Datrysiadau digidol i helpu i weithredu gwasanaethau a gwella profiad cleifion	datrysiadau digidol sy'n cydymffurfio â safonau gorau'r diwydiant, gan gynnwys o ran y Gymraeg, a chefnogi mynediad ar gyfer y rhai sydd wedi'u hallgáu yn ddigidol

Dyma Fframwaith Imiwneiddio Cenedlaethol cyntaf Cymru ac mae'n un sydd wedi'i gydgyhyrchu. Mae Llywodraeth Cymru a'r GIG wedi bod yn gweithio fel un i nodi a defnyddio'r gwersi o'r pandemig i drawsnewid a gwella ein trefniadau presennol ar gyfer pob rhaglen frechu. Mae hyn yn cynnwys integreiddio ein rhaglen frechu COVID-19, a oedd ymysg yr orau yn y byd, a'n trefniadau brechu cyn y pandemig.

Ni fydd atebolrwydd byrddau iechyd yn newid; byddant yn asesu anghenion lleol ac yn comisiynu, yn rheoli perfformiad ac yn gwerthuso darpariaeth yn unol â'r arweiniad strategol cenedlaethol. Ein bwriad yw cefnogi hynny, galluogi gwelliannau a sicrhau bod cynifer â phosibl yn manteisio ar frechiadau. Byddwn yn sefydlu trefniadau llywodraethu priodol i gefnogi gweithrediad y Fframwaith hwn. Bydd hyn yn cael ei lunio yng nghyd-destun mandad a swyddogaethau Gweithrediaeth y GIG sy'n cael eu datblygu.

Mae'r Fframwaith hwn yn cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a'r nodau llesiant. Mae'n gwneud cyfraniad pwysig at y nodau ar gyfer Cymru Iachach a Chymru Gydnherth, gyda brechu'n cael ei ddefnyddio fel mesur ataliol y gall dinasyddion ddewis ei gael i ofalu am eu hiechyd.

Mae'r Fframwaith Imiwneiddio Cenedlaethol yn ymgorffori Nod Pedwarplyg Cymru Iachach ac yn gweithredu arno. Bydd y Fframwaith yn cyd-fynd â'r trefniadau presennol ar gyfer cynllunio a pherfformiad, er enghraifft **Fframwaith Perfformiad GIG Cymru 2022-2023** a Fframwaith Cynllunio GIG Cymru sydd ar ddod. Mae'r Fframwaith Imiwneiddio Cenedlaethol yn tynnu ar y cyd-destun strategol hwnnw i amlinellu ein gweledigaeth ar gyfer ffyrdd o weithio'r GIG o ran imiwneiddio.



Bydd cynlluniau ehangach a fydd yn cael eu llunio yn cynnwys cefnogi gweithrediad y Fframwaith Imiwneiddio Cenedlaethol a chysoni adnoddau i gefnogi ffyrdd newydd o weithio.

Mae cyhoeddi'r Fframwaith hwn yn ein symud i gam nesaf y broses o drawsnewid brechu; gan gwblhau'r cam dylunio a datblygu, a nodi dechrau'r broses o'i weithredu ar y cyd. Bydd gan bob rhan o'r GIG yng Nghymru ran i'w chwarae i'w roi ar waith.

Mae lleihau anghydraddoldebau a gwella canlyniadau iechyd wrth wraidd y Fframwaith hwn. Dangosodd y pandemig inni y bydd salwch a chyflyrau penodol yn effeithio'n fwy ar rai cymunedau nag eraill. I wella iechyd ein gwlad, rhaid mynd i'r afael â'r ddeddf gofal gwrthgyfartal, sef pan mai'r rhai sydd angen y mwyaf o ymyriadau yw'r rhai sy'n aml yn cael y lleiaf. Dangosodd y pandemig inni yn ogystal fod modd ymgysylltu â'r cymunedau hyn a'u cynnwys drwy ddefnyddio'r dulliau cywir. Dyma gyfle unwaith mewn cenedlaeth inni gyflawni newid hirdymor yn ein system frechu. Felly, mae'r Fframwaith hwn hefyd yn amlinellu egwyddorion i fyrdau iechyd eu dilyn pan fyddant yn datblygu strategaethau brechu teg i gyfrannu at Gymru sy'n Fwy Cyfartal.

Cynnydd

Mae'r daith tuag at drawsnewid brechu eisoes wedi dechrau. Ym mis Gorffennaf, gwnaethom gyhoeddi Strategaeth Frechu'r Gaeaf yn erbyn Feirysau Anadlol, gan gyfuno strategaethau, cynllunio, darparu a llywodraethiant ar gyfer brechlynnau COVID-19 a'r fflwi. Paratôdd hyn y ffordd ar gyfer rhaglen COVID-19 a fflwi integredig eleni drwy Raglen Frechu'r Gaeaf yn erbyn Feirysau Anadlol, a lansiwyd ar 1 Medi.

Rydym wedi gweld y pŵer y mae mwy o integreiddio yn ei gynnig yn ein rhaglenni imiwneiddio eraill yn ddiweddar. Er enghraifft, datblygu cynlluniau ar gyfer rhaglen dal i fyny MMR, yr ystwythder yn ein hymateb cynnar i'r achosion o bolio a pha mor gyflym yr oeddem yn gallu ymateb i frech y mwnciod, gan gynnwys defnyddio strwythurau llywodraethiant a thimau brechu'r pandemig i roi ein strategaeth ar waith yn gyflym. Mae hyn wedi dangos effeithiolrwydd mwy o integreiddio a thrwy'r Fframwaith Imiwneiddio Cenedlaethol hwn rydym am atgyfnerthu hyn ac adeiladu arno.

Datblygiad allweddol arall yw ehangu rôl Uned Gyflawni GIG Cymru yn ddiweddar. Roedd rôl yr Uned Gyflawni yn rhaglen COVID-19 yn hanfodol, ochr yn ochr ag arweinyddiaeth glinigol lechyd Cyhoeddus Cymru. Rydym am ddefnyddio'r dull hwn yn ein holl ymgyrchoedd brechu fel y gall pob un o'n hymgyrchoedd elwa ar yr arweiniad hwn – drwy gynllunio, goruchwyllo darpariaeth a rheoli perfformiad – i hybu effaith ein rhaglenni brechu. Rydym wedi cymryd y cam cyntaf i ehangu rôl yr Uned Gyflawni, drwy gomisiynu'r tîm i gefnogi Rhaglen Frechu'r Gaeaf yn erbyn Feirysau Anadlol eleni, gan felly ehangu rôl y tîm i gynnwys y fflwi. Byddwn yn ehangu'r rôl hon ymhellach wrth weithredu'r Fframwaith hwn, gan sicrhau bod ganddi'r adnoddau i gyflawni'r rôl ehangach. Yn 2023, bydd yr Uned Gyflawni yn dod yn rhan o Weithrediaeth y GIG, felly bydd yn cyflawni'r swyddogaethau hyn fel rhan o'r Weithrediaeth o hynny ymlaen, wrth iddi ymsefydlu ymhellach. Bydd hyn yn adlewyrchu'r newid cadarnhaol a'r cymorth â blaenoriaeth a roddir i'r system iechyd.

Blaenoriaethau'r Fframwaith Imiwneiddio Cenedlaethol

Rydym wedi nodi chwe maes i ganolbwyntio arnynt. Lluniwyd y Fframwaith Imiwneiddio Cenedlaethol ar sail y meysydd hyn er mwyn sefydlu trefniadau sy'n addas at y dyfodol. Dyma'r chwe maes:

1. Brechu Teg
2. Brechu Wedi'i Hwyluso drwy Dechnolegau Digidol
3. Cymhwysedd
4. Llythrennedd Brechu Ymysg y Cyhoedd
5. Rhoi ar Waith
6. Llywodraethiant

1. Brechu Teg

Mae brechu teg wrth wraidd dulliau brechu Cymru. Drwy raglen COVID-19, rydym wedi gweld lefelau uwch nag erioed o ymgysylltu â'r cyhoedd ac o gynnwys y cyhoedd, yn seiliedig ar y syniad y dylai fod gan bawb fynediad a chyfle teg i fanteisio ar y cynnig o frechiad, gan gynnwys drwy ein hegwyddor i beidio â gadael neb ar ôl. Mae'r dull hwn wedi'i estyn i'r fflw drwy Strategaeth Frechu'r Gaeaf yn erbyn Feirysau Anadlol a bydd yn nodwedd gryfach o'n holl ymgyrchoedd brechu o hyn ymlaen. Mae llawer o agweddau eraill ar y Fframwaith hwn yn anelu at sicrhau dull brechu tecach ar draws ein hymgyrchoedd. Er enghraifft, y gwelliannau digidol sydd wedi'u cynllunio a'r dulliau eang ac wedi'u targedu ar gyfer darparu brechlynnau i wella hygrychedd, a gwybodaeth a chyfathrebu cyhoeddus rhagweithiol a chadarn i wella dealltwriaeth a derbynioldeb.

Rydym yn gwybod nad yw niwed i iechyd yn sgil COVID-19 wedi effeithio ar bobl yng Nghymru yn gyfartal ac mae arolygon wedi dangos nad yw lefelau derbyn brechiad yn gyfartal ar draws cymdeithas. Felly, roedd angen teilwra cymorth i alluogi ac annog grwpiau â lefelau is i dderbyn y cynnig o frechiad. Drwy ein profiadau yn ystod pandemig COVID-19, rydym hefyd wedi gweld y bydd cymunedau anos eu cyrraedd yn dod ymlaen i gael eu brechu, sy'n awgrymu mai *hygyrchedd* yn hytrach na *derbynioldeb* yw'r rhwystr allweddol a allai eu hatal rhag cael eu cynnwys a rhag derbyn y cynnig. Rhaid inni ddysgu o hyn wrth gynllunio a gweithredu cynlluniau yn y dyfodol.

Mae angen i frechu gael ei dderbyn yn gyfartal ar draws pob rhan o gymdeithas yng Nghymru fel y bydd unigolion, teuluoedd a'u cymunedau wedi'u diogelu rhag niwed clefydau y gellir eu hatal drwy frechu. Mae angen bod yn rhagweithiol i gyflawni hyn er mwyn sicrhau:

- Bod pawb sy'n gymwys am frechiad yn cael cynnig apwyntiad mewn modd priodol (a'i alw'n ôl pan fo angen) ac yn gallu cael mynediad at frechiad.
- Bod pawb yn cael yr wybodaeth sydd ei hangen arno i wneud penderfyniad ynghylch brechu ar sail gwybodaeth a ffynonellau dibynadwy.

Dylai'r ffordd yr eir i'r afael ag annhegwch brechu fod wedi'i seilio ar dystiolaeth ac arferion gorau, gan gynnwys i osgoi amrywio diangen ar draws Cymru. Serch hynny, dylai wedyn gael ei harwain yn lleol i ymgysylltu â chymunedau a'u grymuso i ddeall manteision brechu a chefnogi ac annog eraill yn eu cymunedau i gael eu brechu.

Bydd ymrwymiad i ddarpariaeth yn y gymuned a dulliau wedi'u targedu yn cyd-fynd â'r gwaith ymgysylltu hwn i sicrhau hygyrchedd, yn enwedig mewn ardaloedd â lefelau is o ran derbyn brechiad.

Dylai byrddau iechyd ddatblygu Strategaeth Brechu Teg a rhaglen waith gyda chyfraniad iechyd cyhoeddus pwrpasol. Dylai byrddau iechyd ddefnyddio'r egwyddorion canlynol pan fyddant yn datblygu eu strategaethau:

Rhestr Egwyddorion Strategaeth Brechu Teg

Darpariaeth ar gyfer nodi grwpiau â lefelau isel o ran derbyn cynnig o frechiad	Darpariaeth ar gyfer deall rhwystrau a allai atal pobl rhag derbyn cynnig o frechiad	Gweithio mewn partneriaeth ac ymgysylltu'n ystyrllon â hyrwyddwyr cymunedol, lleisiau yr ymddiriedir ynddynt a sefydliadau'r trydydd sector	Cydgynhyrchu ymyriadau wedi'u teilwra	Gwerthuso camau gweithredu ac ymyriadau
✓	✓	✓	✓	✓

Bydd y Pwyllgor Brechu Teg, gan ddefnyddio data a mewnwelediadau ymddygiadol, yn parhau i gynghori ar ymyriadau pwrpasol i ymgysylltu â chymunedau â lefelau is o ran derbyn cynnig o frechiad, ac yn parhau i fonitro'r niferoedd sy'n cael eu brechu a thuueddiadau, gan gymryd camau priodol yn unol â hynny.

2. Brechu Wedi'i Hwyluso drwy Dechnolegau Digidol

Mae gan dechnoleg ddigidol ran bwysig i'w chwarae wrth inni ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol o safon a helpu pobl i fyw'n iach. Mae cofnodi brechiadau'n gywir a gwybod hanes brechu person yn hanfodol i sicrhau bod ein poblogaeth wedi cael yr holl frechiadau diweddaraf. Rydym yn gwybod bod yna systemau cofnodi gwahanol ar gyfer brechlynnau gwahanol, gan ddibynnu ar ddarparwr y brechlyn. Mae lle i wella llawer o'r systemau hyn eu hunain, fel rhan o'r seilwaith brechu ehangach ac i wneud y defnydd gorau o ddata i gynllunio a rheoli'r ffordd o ddarparu brechlynnau.

Gall datrysiadau digidol wella profiad cleifion, ond rhaid inni gofio sicrhau cynhwysiant a hygyrchedd ar gyfer dinasyddion. Y llynedd, drwy Bâs COVID y GIG roedd modd i ddinasyddion ddangos tystiolaeth ddigidol o'u brechiadau COVID-19 at ddibenion lletygarwch a theithio. Rydym hefyd wedi cyflwyno ein gwasanaeth aildrefnu ar-lein cenedlaethol cyntaf ar gyfer brechiadau COVID-19, gan ddarparu gwasanaeth mwy hyblyg i ddinasyddion. Byddwn yn dysgu o arloesedd o'r fath, ac yn adeiladu arno, drwy'r rhaglen trawsnewid brechu.

Byddwn yn creu cysylltiadau â chynlluniau gwella digidol sydd eisoes yn bodoli, pan fo'n briodol, er enghraifft:

- Bydd y Portffolio Trawsnewid Meddyginiaethau Digidol yn gwneud gwasanaethau meddyginiaethau'n haws, yn ddiogelach, yn fwy effeithlon ac yn fwy effeithiol. Bydd un cofnod sengl o feddyginiaethau ar gyfer pob unigolyn yng Nghymru yn ei gwneud yn haws rhannu gwybodaeth â phawb y mae angen iddynt wneud penderfyniadau ynghylch gofal a thriniaeth.

- Mae'r Adnodd Data Cenedlaethol yn fenter strategol 10 mlynedd a fydd yn trawsnewid iechyd a gofal yng Nghymru drwy ddefnyddio data mewn modd mwy cysylltiedig a chydweithredol.
- Mae'r rhaglen Gwasanaethau Digidol i Gleifion a'r Cyhoedd yn enghraifft gyfredol arall o ddefnyddio technoleg a data i drawsnewid gwasanaethau iechyd a gofal. Mae'r rhaglen yn datblygu cymwysïadau digidol sy'n gallu ei gwneud yn haws i bobl fonitro cyflyrau iechyd, rhannu a derbyn gwybodaeth bwysig am iechyd a chyfrannu'n ymarferol at eu hiechyd a'u llesiant eu hunain. Mae hynny'n cynnwys Ap GIG Cymru a fydd yn helpu pobl i gael apwyntiad, gweld canlyniadau profion ac archebu presgripsiynau drwy ddefnyddio ffôn clyfar neu lechen.

Byddwn yn datblygu taith frechu ddigidol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan gynnwys: cofnod brechu integredig; cydsyniad digidol; a swyddogaethau archebu, cyfathrebu a chofnodi gwell. Bydd hyn yn helpu staff y GIG yn eu gwaith ac yn cefnogi dinasyddion.

Rydym wedi comisiynu lechyd a Gofal Digidol Cymru i adolygu'r holl systemau brechu a chynnal archwiliad darganfod technegol o ran galluogi systemau sydd eisoes yn bodoli i ryngweithredu yn fwy, yn ogystal â datblygu i ateb anghenion newidiol staff iechyd a gofal cymdeithasol a dinasyddion.

Tra byddwn yn meddwl yn yr hirdymor am ddatrysiadau digidol i gefnogi dull brechu cenedlaethol sy'n addas at y dyfodol, byddwn hefyd yn mynd ati i weithredu datrysiadau a gwelliannau tymor byrrach a fydd yn gwneud gwahaniaeth i wasanaethau nawr.

3. Cymhwysedd

Cawn ein harwain gan gyngor y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu, sy'n bwyllgor cynghori arbenigol, annibynnol. Mae brechu ac imiwneiddio yn cael eu rhoi ar waith yng Nghymru yn unol â'i gyngor a'i arweiniad ar ôl i Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru eu hystyried a'u derbyn.

Rydym yn gwybod bod derbyn strategaeth, polisi a chynghor clinigol amserol yn hanfodol i gynllunio ymgyrchoedd brechu. Mae hyn wedi bod yn anodd pan oedd y pandemig yn ei anterth oherwydd cyflymder datblygiadau. Serch hynny, wrth inni edrych ymlaen at weithredu mewn modd mwy cynaliadwy ac yn fwy fel 'busnes fel arfer' yn ein holl raglenni, rydym yn gweithio tuag at ddarparu strategaeth tymor hwy pan fo'n bosibl, gan ganiatáu mwy o amser i gynllunio brechu. Wedi dweud hynny, hyd yn oed mewn rhaglenni sydd fel arfer yn sefydlog, bydd angen ymateb brys a chyflym weithiau, fel y gwnaethom ddysgu o'n profiad diweddar o gydlynw'r ymateb i frech y mwnciod a'r rhaglen dal i fyny bresennol ar gyfer Polio i blant iau.

Mae'n bwysig ein bod yn nodi gwersi a ddysgwyd ac yn cadw'r hyn a weithiodd yn ein hymateb i'r pandemig a phrofiadau diweddar eraill. Felly, pan nad yw amser rhagarweiniol digonol yn bosibl, bydd rhagdybiaethau cynllunio yn cael eu darparu, fel y gwnaethom yng ngwanwyn 2022 i baratoi ar gyfer ymgyrch pigiaid atgyfnerthu COVID-19 yr hydref, a oedd yn cynnwys cynllunio ar gyfer y posibilrwydd o gynydd mewn achosion.

Byddwn yn darparu strategaeth a pholisi amserol, gan gynnwys senarios cynllunio i gefnogi'r broses gynllunio pan nad yw penderfyniadau terfynol yn bosibl eto.

Gall gweithgarwch brechu gynyddu a lleihau, a chydabyddir bod hyn yn gwneud cynllunio'r gweithlu yn fwy heriol. Bydd timau brechu canolog mewn byrddau iechyd yn chwarae rôl bwysig o ran rheoli adnoddau yn y cyswllt hwn. **Byddwn yn adolygu'r holl raglenni brechu a'u hamseriad ac yn darparu cyngor i gefnogi prosesau cynllunio a phenderfynu lleol i helpu i reoli adnoddau a sicrhau gwerth ychwanegol.**

4. Llythrennedd Brechu Ymysg y Cyhoedd

Rydym am i bawb yng Nghymru gydnabod pwysigrwydd brechu a chael mynediad a chyfle teg i fanteisio ar y cynnig o frechiad.

Mae gwybodaeth glir a chyfathrebu cadarn yn hanfodol i alluogi'r cyhoedd i ddeall pwysigrwydd brechu. Dylai strategaethau cyfathrebu gael eu llywio gan fewnwelediadau ac adlewyrchu'r ystod ehangaf o leisiau er mwyn cael yr effaith fwyaf posibl.

Rydym yn disgwyl i ddeunyddiau gwybodaeth i gleifion gael eu cydgynhyrchu â dinasyddion, y trydydd sector a chyrrff perthnasol y GIG.

Bydd hyn yn sicrhau bod y deunyddiau'n rhoi'r ffeithiau clinigol i ddinasyddion am glefydau a brechu yn eu herbyn, ond eu bod hefyd yn hygyrch ac yn cydnabod ffactorau a allai effeithio ar hygyrchedd ar gyfer gwahanol grwpiau neu gymunedau.

Mae'n hollbwysig bod gweithlu'r GIG yn cydnabod pwysigrwydd brechu, a'r rôl sydd ganddynt i'w chwarae o ran annog pobl i gael eu brechu ac o ran bod yn esiampl i eraill. **Mae hyfforddiant codi ymwybyddiaeth o frechu yn allweddol i hyn.** Bydd gwaith cwmpasu pellach yn cael ei wneud i nodi'r grwpiau proffesiynol sydd ar hyn o bryd yn addysgu, yn darparu gwybodaeth ac yn brechu ar draws yr holl ymgyrchoedd brechu, gan gynnwys y defnydd o fodiwlau e-ddysgu.

Bydd trefniadau hyfforddi yn parhau i gael eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn briodol ac wedi'u symleiddio ble bynnag y bo modd. Fel rhan o hyn, disgwylir bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i sut y gall lleisiau y mae pobl yn ymddiried ynddynt gefnogi rhaglenni brechu drwy ddarparu gwybodaeth a chodi ymwybyddiaeth o frechu ymysg grwpiau â lefelau is o ran derbyn brechiadau a grwpiau agored i niwed.

5. Rhoi ar Waith

Mae yna lawer o raglenni brechu eisoes yn bodoli ar gyfer gwahanol adegau ym mywydau pobl. Mae'r rhain yn amrywio o ran cwmipas ac yn cynnwys rhaglenni rheolaidd, rhaglenni wedi'u targedu, rhaglenni dethol a rhaglenni ar gyfer teithio. Mae lechyd Cyhoeddus Cymru wedi llunio **amserlen imiwneiddio rheolaidd** sy'n amlinellu pwy sy'n gymwys am ba frechlyn a thua pryd y dylid rhoi pob brechlyn.

Rydym wedi dysgu i ddisgwyl yr annisgwyl, gydag angen am raglenni brechu ychwanegol megis COVID-19 a brech y mwncïod, newidiadau i'r math o frechlyn a gymeradwyir neu'r amserlen frechu mewn rhaglenni rheolaidd sydd eisoes yn bodoli a rhaglenni dal i fyny i roi sylw i ostyngiad yn y niferoedd sy'n cael eu brechu, fel yn ein rhaglen imiwneiddio plant.

O ystyried yr amrywiaeth mewn brechlynnau a grwpiau cymwys, rydym yn deall bod opsiynau hyblyg ar gyfer rhoi brechiadau yn cefnogi'r broses ymarferol, yn galluogi proses benderfynu effeithiol ac yn gallu bod yn allweddol i alluogi model hygyrch sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae opsiynau hygyrch sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn hanfodol i sicrhau bod cynifer o bobl â phosibl yn cael eu brechu. Felly, byddant yn parhau i fod wrth wraidd y gwaith o gynllunio a darparu brechiadau. Rydym yn gwybod bod mynd â brechlynnau mor agos â phosibl at unigolion yn gwella'r niferoedd sy'n cael eu brechu. Gan hynny, bydd darparu brechiadau drwy ofal sylfaenol, gan gynnwys fferyllfeydd cymunedol a'n rhaglenni mewn ysgolion, yn parhau i chwarae rhan bwysig yn y trefniadau hyn yn y dyfodol. Fel y nodir uchod, byddwn yn ceisio darparu golwg cynnar ar bolisi a strategaeth, a chynnig senarios cynllunio pan nad yw hynny'n bosibl, er mwyn helpu i gynllunio ar gyfer rhoi brechiadau.

Archebu Brechlynnau

Rydym wedi dysgu o raglen frechu COVID-19 bod archebu brechlynnau yn genedlaethol yn hwyluso dull diogelu ieuchyd sy'n sicrhau bod cynifer o bobl â phosibl yn cael eu brechu drwy ganolbwyntio ar grwpiau lle gallai'r niferoedd fod yn uwch, ac sy'n defnyddio modelau darparu arloesol ac wedi'u targedu ar gyfer cymunedau anos eu cyrraedd. Rydym wedi gweld y manteision y gall ystod o opsiynau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn eu cynnig i sicrhau bod cynifer o bobl â phosibl yn cael eu brechu, er enghraifft lleoli gofal sylfaenol mewn cymunedau gydag allgymorth a mewngymorth drwy glinigau dros dro, gweithio ar y penwythnos ac unedau symudol. **Rydym am ddefnyddio'r dulliau darparu hyn ar draws ein hymgyrchoedd brechu a allai olygu bod angen archebu brechlynnau yn genedlaethol.**

I ganolbwyntio'n fwy ar ddiogelu ieuchyd o safbwynt y fflw, rydym yn cydnabod bod rhaid ysgwyddo'r risg ar y lefel genedlaethol. Ni allwn ddisgwyl i ddarparwyr gofal sylfaenol ysgwyddo'r risg o archebu mwy o frechlynnau i gyflawni'r uchelgais hon yn absenoldeb sicrwydd ynghylch y niferoedd a fydd yn dewis derbyn y brechlyn. **Dyna pam rydym yn ystyried sut y gallwn ni symud tuag at fodel caffael cenedlaethol ar gyfer y brechlyn fflw.**

Bydd hyn yn cynnig manteision drwy ryddhau darparwyr gofal sylfaenol o'r prosesau archebu brechlynnau yn uniongyrchol gan wneuthurwyr, gan olygu y gall yr amser gweinyddol hwn a arbedir gael ei ddefnyddio ar lefel practisau a fferyllfeydd.

O ystyried yr amser rhagarweiniol wrth archebu brechlynnau fflw a maint y newid, bydd y trefniadau presennol yn cael eu cadw tan o leiaf 2024.

Rydym yn cydnabod y bydd hyn yn newid sylweddol o ran gweithredu'r ymgyrch fflw ac y bydd ganddo oblygiadau ariannol. **Felly, byddwn yn gweithio'n agos gyda phawb a fydd yn helpu i weithredu'r newidiadau, gyda ffrwd waith benodol yn parhau yn ystod cam gweithredu'r Fframwaith hwn.**

Rydym yn disgwyl i ddarparwyr gofal sylfaenol barhau i chwarae rôl allweddol o ran darparu brechlyn fflw y tu hwnt i 2024. Mae'r newidiadau hyn yn ymwneud ag archebu brechlynau i alluogi byrddau iechyd, darparwyr gofal sylfaenol a chymunedau i bennu modelau darparu lleol priodol.

Arferion gorau

I sicrhau lefelau uchel a theg o bobl yn manteisio ar frechlynau ledled Cymru, rhaid gwneud brechiadau mor hygyrch ac mor hawdd eu derbyn â phosibl drwy wasanaethau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Bydd hyn yn gwella iechyd a lles ac yn diogelu cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol yng Nghymru yn well rhag niwed y gellir ei atal.

Mae angen cynnwys y system gyfan yn hyn er mwyn ysgogi diwylliant o wella. Yn unol ag egwyddorion gofal iechyd darbodus, mae'n hanfodol hyrwyddo ymdrechion systematig i leihau amrywiadau amhriodol, drwy ddefnyddio arferion seiliedig ar dystiolaeth yn gyson ac yn dryloyw.

Mae gwelliannau i wasanaethau yn nodwedd gyson o ddarpariaeth leol. I gefnogi penderfyniadau cyson a thryloyw ar sail tystiolaeth, mae angen i welliannau ac arloesedd gael eu cefnogi gan werthusiadau cadarn o'r effaith er mwyn gallu dangos y gwerth a galluogi gwelliannau i gael eu mabwysiadu, pan fo'n briodol, fel arferion safonol ar draws gwasanaethau. Mae cyfoeth o dystiolaeth ar gael yn fyd-eang ynghylch ymyriadau a dulliau a all wella'r nifer sy'n manteisio ar frechlynau mewn grwpiau amrywiol. Mae'n bwysig bod modd adolygu'r dystiolaeth hon a llunio argymhellion i ysgogi arloesedd a gwelliannau pellach yn ein dulliau gweithredu yma yng Nghymru.

Bydd y camau canlynol, gyda chymorth lechyd Cyhoeddus Cymru a phartneriaid, yn ein galluogi i greu gwybodaeth a thystiolaeth ar arferion gorau yn systematig ac yn galluogi eu mabwysiadu:

Hwyluso rhaglen systematig o gasglu tystiolaeth fyd-eang, a llunio argymhellion ar gyfer Cymru.

Mynd ati i gefnogi timau a gwasanaethau brechu lleol drwy ddarparu cyngor technegol, adnoddau ac arbenigedd i sefydlu diwylliant o werthuso cadarn ochr yn ochr ag arloesedd lleol o ran brechlynau.

Nodi ar y cyd fylchau mewn tystiolaeth a chwestiynau allweddol sy'n effeithio ar y nifer sy'n manteisio ar frechlynau yng Nghymru, a gweithio mewn partneriaeth gyda phob sector yng Nghymru i lenwi bylchau drwy ymchwil a gwerthuso.


Er mwyn lledaenu gwybodaeth ac arferion gorau yn effeithiol, rhaid i dystiolaeth ar arferion gorau fod ar gael yn hwylus, ochr yn ochr â chyngor ac arbenigedd i helpu i'w rhoi ar waith yn lleol. Dylai hyn gynnwys cymorth i gyhoeddi tystiolaeth drwy gyfnodolion a adolygir gan gymheiriaid ynghyd â darparu lle pwrpasol i gefnogi cyfeiriadau at dystiolaeth allweddol a chefnogi cyhoeddi adroddiadau ac offer gwerthuso.

Rydym am adeiladu ar y berthynas bresennol â phartneriaid, gan gynnwys Sefydliad Iechyd y Byd, ac enw da rhyngwladol presennol Iechyd Cyhoeddus Cymru fel y bydd Cymru yn un o arweinwyr y byd o safbwynt brechu teg. Bydd yr uchelgais hon yn rhoi GIG Cymru a rhanddeiliaid ledled Cymru yn y sefyllfa orau i ddenu cyllid ar gyfer ymchwil a gwerthuso o ran ymyriadau a all wella tegwch brechu yn genedlaethol ac yn fyd-eang.

Cymorth Clinigol

Mae cymorth clinigol effeithiol yn elfen hanfodol o ymgrych frechu effeithiol. Mae'r cymorth clinigol hwn yn gweithredu ar sawl lefel:

1. Cymorth clinigol lleol ar gyfer brechwyr, a ddarperir yn aml gan gydlynwyr imiwneiddio byrddau iechyd.
2. Cymorth cenedlaethol a ddarperir gan lechyd Cyhoeddus Cymru a chyrrff cenedlaethol eraill, megis Gwasanaeth Gwybodaeth Meddyginiaethau Cymru, pan gaiff materion lleol eu huwchggyfeirio ar gyfer cymorth ychwanegol. Mae'r ystod o gymorth yn helaeth.
3. Cyngor clinigol cenedlaethol a chymorth ar gyfer penderfyniadau gan gynnwys, er enghraifft, paratoi templed Cyfarwyddiadau Grwpiau Cleifion.



Rydym wedi dysgu llawer drwy'r pandemig ynglŷn â'n capasiti a'n gallu clinigol a fferyllol yng Nghymru ac rydym yn awyddus i wneud y pethau sydd wedi gweithio'n dda yn nodweddion parhaol a chanolog o'n holl ymgrychoedd brechu.

Bydd angen adnoddau priodol ar gyfer hyn, gan gynnwys o fewn byrddau iechyd, lechyd Cyhoeddus Cymru a sefydliadau eraill sy'n darparu cymorth ar draws GIG Cymru, a bydd hefyd angen fframwaith llywodraethu cadarn.

Wrth gwrs, mae'r angen am adnoddau a threfniadau llywodraethu priodol yn berthnasol yn ehangach ar draws y blaenoriaethau yn y Fframwaith hwn. Gall y dull gweithredu, gyda chyfraniadau gwahanol sefydliadau sy'n gweithredu ar wahanol lefelau a lleoliadau, gael ei roi ar waith yn ehangach ac mae'n cael ei ystyried fel rhan o'r gwaith parhaus a amlinellir yn y thema Llywodraethiant isod.

Ein gweithlu brechu

Fel y nodir yn **Gwella iechyd a gofal cymdeithasol (COVID-19: edrych tua'r dyfodol)** mae'r ffordd yr ydym wedi bod yn gweithio yn ystod y pandemig wedi atgyfnerthu'r 'agwedd un gweithlu', gyda'r rheini sydd heb gofrestru yn rhan hollbwysig o'r ymateb i'r pandemig, gan gynnwys yn ein hymgyrchoedd brechu. Dyma un o'r gwersi y byddwn yn adeiladu arni yn dilyn ein profiad o COVID-19. Rydym yn cydnabod gwerth datblygu a chynyddu adnodd tîm brechu craidd arbenigol a chynaliadwy, gan sicrhau'r cyfuniad gorau posibl o sgiliau, wedi'i gydlynyn ganolog mewn byrddau iechyd.

Byddwn yn meithrin adnodd imiwneiddio canolog mewn byrddau iechyd, gan gynnwys tîm craidd o nyrsys imiwneiddio arbenigol, a fydd yn darparu swyddogaeth gomisiynu leol, gadarn.

Bydd y tîm hwn yn gweithio i wella'r niferoedd sy'n dewis cael eu brechu a thegwch ledled Cymru, drwy ddarparu mewngymorth ac allgymorth, targedu ymyriadau, rheoli brigiadau o achosion a darparu cyngor a chymorth arbenigol. Bydd yn cael ei arwain gan driwriaeth reoli: nyrsio, rheoli ac iechyd cyhoeddus. Bydd maint a strwythur y tîm hwn yn cael ei bennu'n lleol a'i raddfa yn ôl gweithgarwch, anghenion y boblogaeth a goblygiadau daearyddol lleol.

Byddwn yn disgwyl i fyrddau iechyd weithredu a chynnal hyn fel adnodd imiwneiddio craidd. Er y gellir defnyddio'r tîm hwn i gefnogi swyddogaethau eraill pan fo llai o weithgarwch imiwneiddio, bydd yn hanfodol sicrhau mai imiwneiddio sydd wrth wraidd swyddogaeth y tîm hwn.

Mae'n bwysig hefyd i'r swyddogaethau a'r rolau perthnasol yn y timau hyn weithio mewn partneriaeth gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru ac Uned Gyflawni GIG Cymru.

Rydym yn ymrwymo i sicrhau bod adnoddau priodol ar gael i'r system er mwyn datblygu'r ddarpariaeth hon yn lleol.

Darpariaeth yn y gymuned

Byddwn yn sicrhau cymaint â phosibl o ddarpariaeth imiwneiddio yn y gymuned, yn cynyddu'r niferoedd sy'n dewis cael eu brechu ac yn gwella tegwch brechu drwy gydweithio i roi cyngor a chymorth ar gyfer penderfyniadau lleol ynglŷn â defnyddio lleoliadau brechu'n effeithlon i gynyddu hygyrchedd, y niferoedd sy'n dewis cael eu brechu a gwelededd.

I alluogi hyn, dylai byrddau iechyd barhau i ystyried defnyddio lleoliadau cymunedol sydd ar gael heb gost neu am gost isel i hybu ymgyrchoedd brechu (er enghraifft, neuadd ysgol ac adeilad partner). Pan ddarperir brechiad yn y gymuned, dylid ystyried cyfleoedd i ddefnyddio lleoliadau ar gyfer gwasanaethau diogelu iechyd a gofal cymdeithasol ehangach a gwasanaethau lleol cysylltiedig eraill.

Byddwn yn ystyried darparu fflyd hyblyg o unedau symudol, wedi'i hategu gan drefniadau llogi cadarn gyda strwythur dros dro wedi'i ddarparu i ganiatáu darpariaeth frechu hyblyg ac ymatebol ledled Cymru. Byddai'r ddarpariaeth hon yn cael ei dosbarthu a'i rheoli'n deg, gan ymateb yn amserol i ymgyrchoedd ac anghenion lleol o ran brechu.

6. Llywodraethiant

Mae angen trefniadau llywodraethiant clir i ategu ein trefniadau brechu yn y dyfodol, gyda chymorth fframwaith rheoli perfformiad cadarn a threfniadau comisiynu ac adrodd clir. Bydd y trefniadau hyn yn rhan o fframwaith llywodraethiant perfformiad presennol GIG Cymru, gyda sefydliadau'r GIG yn adrodd am eu perfformiad brechu drwy gyfarfodydd Ansawdd, Cynllunio a Chyflawni Integredig.

Wrth ddatblygu'r Fframwaith hwn, cynhaliwyd ymarfer i fapio'r holl drefniadau llywodraethiant brechu cenedlaethol presennol a rolau a chyfrifoldebau systemau.

Ar hyn o bryd, mae yna drefniadau llywodraethiant ar wahân ar gyfer ein Rhaglen Frechu'r Gaeaf yn erbyn Feirysau Anadlol, drwy Fwrdd y Rhaglen Frechu, ac ar gyfer pob imiwneiddio arall (ac eithrio COVID-19 a'r fflw), drwy Grŵp Imiwneiddio Cymru. Mae angen integreiddio'r trefniadau ar wahân hyn yn ystod cam gweithredu'r Fframwaith hwn fel y bydd yna un strwythur yn goruchwyllo'r gwaith o gynllunio, cyflawni a rheoli perfformiad ein holl ymgyrchoedd.

Byddwn yn gwneud hyn drwy sefydlu Bwrdd Cyflawni'r Rhaglen Frechu o dan arweiniad y GIG, ac rydym yn disgwyl y bydd yn adrodd i Grŵp Goruchwyllo'r Rhaglen Frechu, wedi'i gadeirio gan Lywodraeth Cymru ac yn adrodd i Weinidogion Cymru a Bwrdd Arweinyddiaeth y GIG.

Byddwn yn pontio i'r strwythur newydd mewn modd trefnus a gofalus yn ystod 2023.

Mae disgwyl i Fwrdd Gweithredu ar wahân gael ei sefydlu i oruchwyllo'r gwaith o weithredu'r Fframwaith Imiwneiddio Cenedlaethol hwn. Strwythur dros dro fydd hwn, o dan arweiniad y GIG, a bydd yn bodoli hyd nes y bydd pob ffrwd waith i weithredu'r Fframwaith hwn wedi'i chwblhau.

Sefydlwyd y Panel Blaenoriaethu a Chynghori Clinigol ar gyfer Brechiadau (VCAP) o fewn Rhaglen Frechu COVID-19 i ddehongli cyngor clinigol a chynghori ar flaenoriaethu, gan gynghori arnynt, er mwyn hwyluso'r broses benderfynu yn y rhaglen. Yn aml, roedd hyn yn golygu dehongli cyngor y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu er mwyn ei roi ar waith yn ein rhaglen yng Nghymru. Roedd hyn yn elfen hanfodol o'n prosesau, gyda VCAP yn adrodd i Fwrdd y Rhaglen Frechu. **O dan y trefniadau newydd, bydd rôl VCAP yn cael ei hestyn i gynnwys yr holl ymgyrchoedd brechu a bydd yn rhan allweddol o'n trefniadau llywodraethu yn y dyfodol.** Bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i estyn rôl ac aelodaeth VCAP i ddarparu ystod ehangach o oruchwyllo clinigol, gan gynnwys darparu cyngor clinigol ar ddatblygu Cyfarwyddiadau Grwpiau Cleifion. Rydym yn disgwyl y bydd VCAP yn dod yn is-grŵp o'r Bwrdd Cyflawni'r Rhaglen Frechu o dan y trefniadau newydd.

I helpu i integreiddio brechiadau fflw a COVID-19 o dan Raglen Frechu'r Gaeaf yn erbyn Feirysau Anadlol, **gwnaethom ehangu cylch gwaith y Pwyllgor Brechu Teg i gynnwys y fflw,** gan sicrhau ffocws rheolaidd ar ddata ynghylch y niferoedd a oedd yn derbyn y cynnig o frechiad ac ar rwystrau posibl i frechu. Cefnogodd hyn ein nod o sicrhau bod pawb cymwys yn cael mynediad a chyfle teg i fanteisio ar y cynnig o frechiad yng Nghymru. Fel VCAP, mae'n debygol y bydd y Pwyllgor Brechu Teg yn dod yn is-grŵp o'r Bwrdd Cyflawni'r Rhaglen Frechu a bydd ei gylch gwaith a'i aelodaeth yn cael eu hadolygu a'u hehangu i gynnwys yr holl ymgyrchoedd brechu.

Mae'n hanfodol ein bod yn sicrhau'r trefniadau llywodraethiant cywir at y dyfodol, gan gynnwys ein strwythurau llywodraethiant fel y'u nodir uchod, a swyddogaethau sefydliadau allweddol. Mae gwaith yn mynd rhagddo i fapio, asesu a disgrifio rôl a chyfrifoldebau'r holl sefydliadau hynny sy'n helpu i ddarparu brechiadau. Mae'r dirwedd wedi newid yn sylweddol dros y 2 flynedd diwethaf, gyda phroffil llawer uwch ac felly mwy o fewnbwn a gorchwyliaeth strategol

na chyn y pandemig. Bydd y gwaith hwn yn parhau yn ystod camau cynnar y cyfnod gweithredu ac yn cael ei adolygu'n rheolaidd ac yn agos pan fyddwn yn symud i sefyllfa 'busnes fel arfer'.

Yn unol â threfniadau llywodraethiant diwygiedig at y dyfodol, bydd angen addasu trefniadau cyllido a threfniadau ariannol i gefnogi gweithrediad y Fframwaith hwn. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo, gan gynnwys yng nghyd-destun paratodau Llywodraeth Cymru ar gyfer cynllunio at gyllideb 2023-24, a bydd rhagor o wybodaeth yn cael ei darparu cyn gynted â phosibl.

Set Ddata Imiwneiddio

Byddwn yn datblygu data rheoli perfformiad ar gyfer brechu i alluogi newid ymddygiadol o ran y niferoedd sy'n derbyn y cynnig o frechiad, galluogi gwyliadwriaeth a chefnogi'r gwaith o reoli darpariaeth a pherfformiad. Bydd hyn yn sicrhau bod systemau data effeithiol ar waith i gefnogi gweithrediad effeithiol y Fframwaith hwn. Bydd y set ddata yn cefnogi ein hegwyddorion dylunio ar lefel strategol, dactegol a gweithredol. Bydd hyn yn ychwanegol at bwysigrwydd parhaus gwyliadwriaeth ar iechyd cyhoeddus a'r angen amdani.

Rydym yn ymrwymo i ddatblygu Set Ddata Rheoli Perfformiad ar gyfer Cymru gyfan, gan gynnwys data ar Weithgarwch Imiwneiddio, Monitro Ariannol a Monitro Ansawdd a Diogelwch a Gwybodaeth Imiwneiddio Staff y GIG. Bydd modd culhau manylion y set ddata at ddibenion tactegol a gweithredol.

Bydd y set ddata arfaethedig yn cyfrannu at ddangosfwrdd data cenedlaethol ar gyfer imiwneiddio ledled Cymru. Bydd y dangosfwrdd yn darparu data byw a bydd modd ei gulhau a chraffu arno i ddysgu pethau penodol.

Bydd y data hyn yn cael eu cefnogi gan drefniadau comisiynu lleol cadarn a byddant yn cael eu cysoni â'r Nod Pedwarplyg.

Edrych ymlaen

Mae cyhoeddi'r Fframwaith Imiwneiddio Cenedlaethol hwn yn nodi dechrau'r cam gweithredu o ran trawsnewid brechu. Mae disgwyl proses bontio at y trefniadau newydd yn ystod 2023 a 2024. Mae hon yn amserlen uchelgeisiol o ystyried ehanger y newid yn y Fframwaith hwn.

Mae ein rhaglen drawsnewid yn nodi sut y byddwn yn rhoi'r newidiadau ar waith ac yn sefydlu'r trefniadau newydd. Bydd y broses weithredu yn cael ei goruchwyllo gan Uned Gyflawni GIG Cymru, tra bydd Llywodraeth Cymru yn symud i rôl drosolwg gan barhau i arwain ffrydiau gwaith allweddol sy'n galluogi trawsnewid.

Bydd yr ymrwymiad i gydgyhyrchu yn parhau yn ystod y cam gweithredu. Wrth i'r broses weithredu fynd rhagddi, rydym yn disgwyl y byddwn yn gofyn am gymorth yn rheolaidd, gan gynnwys drwy weithgorau amlasiantaeth a thrwy ymgysylltu â dinasyddion a grwpiau cynrychioli mewn meysydd allweddol. Dyma sut y byddwn yn parhau i gydweithio'n effeithiol i sicrhau bod y newidiadau yn addas i'r diben ac yn gwella'r trefniadau presennol ar gyfer dinasyddion a'r GIG.

Bydd rhai ffrydiau gwaith trawsnewid yn parhau yn ystod y cyfnod gweithredu i gyflawni'r disgwyliadau a'r ymrwymadau a nodir yn y Fframwaith hwn. Byddwn yn dysgu mwy am ein trefniadau ac yn profi'r newidiadau yr ydym yn eu gwneud yn ystod y cyfnod gweithredu. Bydd yna hefyd ddatblygiadau mewn cyngor clinigol a thechnoleg brechlynnau y bydd angen inni eu hystyried. **Felly, byddwn yn diweddaru'r Fframwaith Imiwneiddio Cenedlaethol hwn yn 2023 i rannu'r cynnydd sy'n cael ei wneud o ran trawsnewid a'r uchelgeisiau yr ydym wedi'u gosod, ac i amlinellu'r sefyllfa ddiweddaraf cyn i'r cyfnod gweithredu ddod i ben.**